TROSEDDAU BYWYD GWYLLT
A CHEFN GWLAD CYMRU
WALES WILDLIFE & RURAL CRIME

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru

## 2023-2025

Mae swydd Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru wedi creu un pwynt cyswllt i sefydliadau... Bydd hynny gobeithio yn sicrhau mwy o gydgysylltu a chysondeb rhwng heddluoedd wrth ddelio â throseddau gwledig. Rydym nawr yn gallu rhoi adborth sy'n caniatáu dulliau plismona a gwybodaeth sy'n benodol i'r troseddau arbenigol sy'n cael eu cyflawni mewn ardaloedd gwledig. Drwy hynny, gallwn nodi'n well y problemau penodol sy'n wynebu cymunedau gwledig a sut maen nhw'n wahanol i'r rhai sydd yn y trefi a'r dinasoedd.[1]

Cysylltwch â: wildlife@gov.wales

## I roi gwybod am drosedd, ffoniwch:

☑ 999 mewn argyfwng

☑ 101 ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn argyfyngau

☑ Ffurflen riportio ar-lein eich ardal heddlu leol

☑ Neu'n ddi-enw trwy Taclo'r Taclau ar 0800 555 111

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46590, ISBN Digidol: 978 1 80535 717 9, ISBN Argraffu: 978 1 80535 715 5

1 Ymgynghoriad â rhanddeiliaid Rhag 2022 – Ion 2023

# Rhagair

## Mae'n bleser cael cyflwyno'r Gyd-Strategaeth gyntaf erioed rhwng yr Heddlu a Llywodraeth Cymru ar Droseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yng Nghymru. Gobaith y strategaeth yw adeiladu ar y strategaethau sydd wedi'u paratoi ar gyfer ardaloedd heddluoedd unigol a'r sylfaen gadarn o waith sydd wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf ledled Cymru i daclo'r sector troseddu pwysig hwn.

Ym mis Mehefin 2021, oherwydd elfennau unigryw troseddau bywyd gwyllt a gwledig yng Nghymru, neilltuodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer swydd Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad penodedig ar gyfer Cymru gyfan. Yn dilyn llwyddiant ei blwyddyn beilot, mae arian ar gyfer tair blynedd arall wedi'i neilltuo, i gynnal y rhaglen o leiaf tan fis Mehefin 2025.

Mae ymchwil yn dangos bod lefel bositif o foddhad a ffydd mewn plismona gwledig yng Nghymru ar y cyfan ond awgrymir bod diffyg hyfforddiant, profiad a dealltwriaeth, ynghyd â phwysau o ran adnoddau. wedi llesteirio'r ymateb i rai agweddau ar droseddu gwledig[2]. Fel cydnabyddiaeth o hynny, mae penodi Cydgysylltydd wedi creu un pwynt cyswllt sydd â'r wybodaeth a'r profiad i ddod â phartneriaid ynghyd. Mae llawer o amser wedi'i dreulio i ddatblygu hyfforddiant a chyfleoedd i rannu arferion gorau yn ardaloedd pob heddlu a chydag asiantaethau a chyrff partner. Ceir arwyddion clir bod hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol, gyda 90% o'r ymatebion yn yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gynhaliwyd i helpu i ddrafftio'r strategaeth hon yn nodi'r manteision neu'r buddion uniongyrchol sydd wedi dod yn sgil creu swydd y Cydgysylltydd. Mewn adroddiad diweddar, dywedir bod yr ymatebwyr i arolwg yng Nghymru yn credu bod yr heddlu bellach fwy o ddifri ynghylch delio â throseddau fferm a chefn gwlad[3].
Y dasg bellach yw sicrhau bod y newidiadau positif hyn yn gwreiddio ac yn cael eu datblygu ymhellach. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arfarniad annibynnol o'r rhaglen waith hon gyda'r nod o ddatblygu model Theori Newid a fframwaith ar gyfer mesur cynnydd yn y blynyddoedd i ddod.

Mae rôl y Cydgysylltydd yn rôl arloesol sy'n unigryw i Gymru. Cafodd ei chreu i ymateb i anghenion Cymru, ond rydym yn cydnabod bod angen gweithio dros ffiniau gyda heddluoedd a sefydliadau yn Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon.

Mae'r strategaeth hon felly wedi'i chynllunio i ategu gwaith Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Cenedlaethol, a *Rural and Wildlife Crime Strategy for 2022-2025* yr Uned Troseddau Gwledig. Er mwyn sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl bydd hon yn strategaeth ddwy flynedd sy'n gorffen yn 2025 pan gaiff cynnydd ei adolygu unwaith eto.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n gweithio ym maes troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yng Nghymru, gan gynnwys heddweision a Swyddogion Cymunedol yn ardaloedd pedair heddlu Cymru, y rheini sydd wedi'u secondio i asiantaethau eraill, a'r rhanddeiliaid a oedd mor barod i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a gyfrannodd gymaint at y strategaeth newydd hon.
Mae'n amlwg bod llawer o bobl ymroddedig yn gweithio gyda phroffesiynoldeb ac ymrwymiad mawr i atal a datrys troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, i helpu dioddefwyr ac i adsefydlu troseddwyr. Mae llawer wedi'i wneud eisoes ond mae mwy eto y gallwn ei wneud trwy gyfuno'n hymdrechion yn well. Edrychwn ymlaen at gydweithio i wireddu'r amcanion a ddisgrifir yn y tudalennau sy'n dilyn.



**Dr Richard Lewis**
Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys NPCC Cymru – Arweinydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad



**Lesley Griffiths MS**
Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru



**Jeff Cuthbert**
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedi Gwent Cadeirydd Plismona yng Nghymru

2 Morris, Norris & Dowell (2020)
3 Norris & Morris (2022)


HEDDLU
POLICE
CX18 AUH

# Cyflwyniad

## Mae Cymru'n wlad gyfoethog o ran ei diwylliant, ei chymunedau a'i hamgylchedd. Mae ei phobl a'i hymwelwyr yn ei charu'n fawr. Ond i rai, mae ei hardaloedd gwledig eang a thenau eu poblogaeth, yn darged hawdd. Mae heriau arwyddocaol i'r rheini sy'n ceisio atal a datrys troseddau gwledig a delio â'u heffeithiau.

Nid yw'r holl droseddau, wrth reswm, yn unigryw i gefn gwlad, ond yn aml iawn, mae eu heffaith ar ddioddefwyr a'r amgylchedd, a'r strategaethau sydd eu hangen i ddelio â nhw, o raid yn eithaf gwahanol. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu'r anghenion hynny ac felly mae ychydig yn wahanol i'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u mabwysiadu ar lefel genedlaethol. Y bwriad serch hynny yw cydweithio bob tro â phartneriaid yn rhannau eraill y DU pryd bynnag y ceir agweddau cyffredin a hefyd lle ceir gwahaniaethau allai rhoi dealltwriaeth werthfawr i ni. Mae Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru'n aelod hefyd o'r rhan fwyaf o'r grwpiau ar lefel y DU ac yn gadeirydd grŵp blaenoriaeth NPCC y DU ar dda byw, ar ôl bod yn arweinydd yn y maes hwn am sawl blwyddyn cyn cychwyn ar y swydd hon.

Yn 2021, £1.3m oedd cost lladrata yng nghefn gwlad Cymru – lefel is na blynyddoedd cynt oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Mae arwyddion cyntaf 2022 yn awgrymu bod troseddu yng nghefn gwlad ar gynnydd eto ac y gallai godi i'r hyn ydoedd cyn y pandemig. Dengys un arolwg bod 89% o bobl yn poeni y gallai chwyddiant a chostau byw arwain at gynnydd eto mewn troseddu sy'n effeithio ar gymunedau gwledig. Does dim dwywaith bod yr heriau, oherwydd maint ac ystod troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yng Nghymru, yn rhai arwyddocaol. Rhaid wrth gyfeiriad strategol clir; rhaid wrth ffocws a chydweithio â'r holl bartneriaid dan sylw; a rhaid wrth amcanion mesuradwy. Bydd y Strategaeth hon yn llywio'r gwaith hwnnw.

Yn y gorffennol, arferid delio â throseddau bywyd gwyllt a throseddau cefn gwlad ar wahân ond ers sawl blwyddyn bellach, mae timau'r heddlu yng Nghymru wedi deall bod mantais o'u cyfuno, hynny i osgoi dyblygu, i weithio'n fwy effeithlon ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau. Gall unedau pwrpasol sydd wedi'u hyfforddi mewn ystod ehangach o sgiliau helpu i ymchwilio i droseddau fel potsio sy'n croesi'r ffin rhwng y naill drosedd a'r llall. Mawr iawn oedd ein croeso i benderfyniad Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) i ddilyn yr un trywydd a chyhoeddi'r Strategaeth Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt newydd ar gyfer 2022-25, er mwyn dod â'r gwaith ynghyd. Nid yw'n bosibl ymdrin â phob mater ym maes troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad. Roedd y rhagymgynghoriad felly â rhanddeiliaid yn hollbwysig i ddeall a oedd y Cydgysylltydd wedi dewis y blaenoriaethau cywir yn ystod ei flwyddyn beilot – gwnaed hynny trwy holi y pedair heddlu, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, ac o fewn cyd-destun Asesiadau'r Bygythiad ar lefel y DU. Mae'n galonogol bod mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r blaenoriaethau sydd wedi'u dewis a bod gan nifer dda hefyd syniadau ar gyfer datblygu ffrydiau gwaith unigol ynddynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo i drafod â rhanddeiliaid a phartneriaid ar sut i gydbwyso'r blaenoriaethau, er mwyn gallu rheoli'n well y disgwyliadau o ran adnoddau. Nid yw hyn fodd bynnag yn ffrwyno'r uchelgais i gynyddu gallu a chapasiti. Ceir sbardun gref o hyd ymhlith yr holl bartneriaid i ddiogelu ac i atal ac i leihau effeithiau troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad.

**Gwasanaethir ein cymunedau gwledig gan bedair heddlu, bob un â'i heriau ei hun ac mae pob un wedi rhoi addewid i roi'r gwasanaeth gorau posibl i'r rheini sydd ei angen a sicrhau bod cynnyrch byd-enwog ein ffermydd, ein diwylliant hanesyddol cyfoethog, a'n bywyd gwyllt a'u cynefinoedd yn cael eu cadw am genedlaethau i ddod, gan gyfoethogi ein gwlad a chynnal ein hanes balch.**



Mae troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn amrywio'n fawr ac yn cynnwys dwyn offer amaethyddol, anafu da byw a dinistrio bywyd gwyllt a'u cynefinoedd. Mae gennym ni'r heddlu a'n partneriaid rôl hollbwysig o ran eu hatal rhag digwydd a cheisio dal y rheini sy'n eu cyflawni.

I lwyddo ac i fod yn gynaliadwy, rhaid gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig a strategol a'r heddlu a'n partneriaid yw canolbwynt y gwaith a'r llwyddiant hwnnw, gan hwyluso ffordd gyfunol o ddatrys problemau drwy ddefnyddio llawer iawn o wybodaeth arbenigol a'r cyfoeth o brofiad a feddwn ledled Cymru a thu hwnt.

Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i chysoni â strategaeth wledig NPCC y DU, yn ceisio rhoi llwybr ac arweiniad clir i'r rheini sy'n rhan hanfodol o'r gwaith o ddelio â throseddau gwledig, a rhoi'r gefnogaeth, y cyngor a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i allu gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig a phroffesiynol, gan leihau troseddau yn eu bon.

Fel Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, testun balchder i mi yw hwyluso rhaglen y gall pob un ohonom gyfrannu at ei llwyddiant a'i thwf yn y dyfodol yn ein cymunedau gwledig, gan leihau'r risg a'r ofn o droseddu a diogelu ein bywyd gwyllt, ein treftadaeth gyfoethog a'n cynefinoedd eiconig.

**Rob Taylor, QPM, Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad**



## Gwaith datblygu

Bydd rhaglen y Cydgysylltydd yn cael ei gwerthuso drwy lunio 'Theori Newid' fydd yn nodi'n ffurfiol yr allbynnau a'r canlyniadau a ddisgwylir, a thrwy ddatblygu metrigau i fonitro perfformiad yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd nifer o'r prif randdeiliaid yng Nghymru yn cael cais i gyfrannu at ddatblygu'r Theori Newid a'r metrigau perfformiad ond ni fydd modd gwahodd yr holl randdeiliaid i gymryd rhan. Disgwylir cynnal y gwerthusiad annibynnol hwn rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2023.

## Ymgysylltu

Yn ogystal â'r asiantaethau a'r sefydliadau hynny sydd eisoes yn delio â gwaith y Grwpiau Blaenoriaeth o fewn rhaglen waith Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, bydd ymgynghoriadau pellach a manylach yn cael eu cyhoeddi yn y blynyddoedd nesaf er mwyn llywio gwaith y Grwpiau Blaenoriaeth ynghyd â strategaethau ar gyfer parhau i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid.

## Beth yw Trosedd Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad?

Troseddau penodol yw'r rhain, sy'n digwydd yn bennaf yng nghefn gwlad ac yn effeithio ar ffermwyr a chymunedau teneuach eu poblogaeth, neu ar ein bywyd gwyllt, ein cynefinoedd, a'n treftadaeth.

Mae trosedd bywyd gwyllt yn cynnwys unrhyw weithgaredd sy'n torri deddfwriaeth sy'n amddiffyn anifeiliaid a phlanhigion gwyllt Cymru. Gall rhywogaeth fod mewn perygl i'r pwynt y gall ddiflannu ac mae llawer o anifeiliaid yn cael eu herlid ac yn dioddef creulondeb o ganlyniad i ystod eang o weithgareddau troseddol gan gynnwys potsio, cwrso, hela, masnachu, gwenwyno a dinistrio cynefin.

Gall fod yn anodd diffinio troseddau gwledig gan eu bod yn cynnwys ystod eang o droseddau gan gynnwys rhai a gyflawnir hefyd yn y trefi - gallant fod yn fwy cyffredin yno yn wir - er enghraifft megis trais yn y cartref. Fodd bynnag, gall amgylchiadau'r drosedd, yr ymateb i'r drosedd honno a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r unigolion a'r cymunedau hynny fod yn wahanol iawn mewn ardaloedd cefn gwlad. Ymhlith y troseddau sy'n fwy unigryw i gymunedau gwledig yw'r rheini sy'n ymwneud â ffermydd, ceffylau a threftadaeth. Mae troseddau sy'n effeithio ar yr amgylchedd yn cynnwys tipio anghyfreithlon a llygru, sydd hefyd yn effeithio ar amaethyddiaeth fel y mae dwyn da byw ac aflonyddu ar dda byw. Maent i gyd yn gallu cael effaith sylweddol ar gynhyrchu bwyd. Troseddau treftadaeth yw'r rheini sy'n effeithio ar werth adeiladau a safleoedd hanesyddol Cymru fel difrodi henebion a chwilio am fetel yn anghyfreithlon.

## Datblygu Strategaeth

Yn dilyn penodi Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, y nod oedd dewis meysydd blaenoriaeth a'r rhwydweithiau i'w cefnogi i weld sut y gallai'r rôl esgor ar effeithiau cadarnhaol ac ychwanegu gwerth. Ar sail llwyddiant y flwyddyn beilot, neilltuodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer tair blynedd arall, er mwyn datblygu strategaeth yng Nghymru a diogelu dyfodol y grwpiau blaenoriaeth. Pan gafodd strategaeth newydd yr NPCC ei chyhoeddi, roedd yn bosibl dechrau datblygu strategaeth ar gyfer Cymru gyfan er mwyn i'r ddwy ategu ei gilydd. Mae'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol a'r dadansoddiad o'r ymatebion hynny, ynghyd ag ymchwil ddiweddar i droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad Cymru, wedi bod yn rhan hollbwysig a sylweddol o'r strategaeth hon.

## Deall y cyd-destun

Arweinydd y portffolio Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yng Nghymru yn NPCC Cymru yw'r Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Er nad yw'r Heddlu na Chyfiawnder Troseddol yn bynciau sydd wedi'u datganoli i Gymru, mae'r amodau sy'n arwain at droseddu; ei effeithiau ar bobl, yr amgylchedd ac anifeiliaid, ynghyd â darnau arwyddocaol o'r gyfraith – er enghraifft, bywyd gwyllt - yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS.

Er mai Llywodraeth y DU oedd arweinydd yr asesiad o Becyn Cymorth y Consortiwm Rhyngwladol ar y Frwydr yn erbyn Troseddau Bywyd Gwyllt (o dan Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau), mae'r adroddiad: ***The Wildlife and Forest Crime Analytic Toolkit Report: United Kingdom of Great Britain and Ireland,*** a gyhoeddwyd yn 2021, yn cynnwys Cymru hefyd. Defnyddiwyd yr asesiad a'r argymhellion i lunio strategaeth yr NPCC a thrwy hynny, dylanwadodd ar y strategaeth hon.

.

# Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar Droseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

Cafodd ymgynghoriad â rhanddeiliaid ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022 gan y Cydgysylltydd a thîm Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru. Daeth 29 ymateb i law. Cafwyd ymatebion gan heddweision troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, cyrff statudol, ac ystod eang o gyrff anllywodraethol sy'n cynrychioli dioddefwyr troseddau ac sy'n gweithio o fewn yr amgylchedd a/neu gydag anifeiliaid.

Roedd 86% o'r ymatebwyr yn cytuno bod proffil troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad wedi codi yn y 18 mis diwethaf, gyda 14% yn ansicr. Dywedodd 75% bod eu perthynas ag eraill sy'n ymwneud â thaclo troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad wedi gwella, ac mai'r Cydgysylltydd oedd y rheswm am hynny, ac roedd 17% arall yn awyddus i wneud defnydd gwell ohono. Roedd gan y mwyafrif ryw fath o gysylltiad â'u heddweision Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad lleol ond roedd bron pawb am gynyddu'r cysylltiad, gan ddangos gwir awydd am weithio mewn partneriaeth.

Cadarnhaodd 69% o'r ymatebwyr fod gan eu sefydliad strategaeth sy'n ymdrin â'u rôl ym maes troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, gyda nifer sylweddol wedi mabwysiadu dull datrys problemau o ddelio â throseddu. Roedd mwyafrif y 31% sy'n weddill naill ai wedi nodi'r dibenion perthnasol yn eu hamcanion neu wrthi'n paratoi strategaeth sefydliadol newydd. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn aros am gyhoeddi'r strategaeth hon cyn dyfeisio neu ddiwygio un eu hunain - sy'n galonogol o ran sicrhau cysondeb rhwng y partneriaid yng Nghymru.

Nid yw pob un o'r prif randdeiliaid a holwyd yn cadw data am droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, ond mae'r 62% a ddywedodd eu bod yn fodlon eu rhannu o fewn paramedrau rhannu data cyfrifol. Nodwyd hefyd bod y gwahaniaethau yn y ffordd y mae troseddau'n cael eu cofnodi yn broblematig yn enwedig gan ei bod yn amharu ar unrhyw asesiad o wir effaith troseddau mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r mwyafrif helaeth yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gyda rhai â dilyniant sylweddol, a gwelwyd gwir awydd cynnal ymgyrchoedd wedi'u cydlynu. Mae gan ardaloedd rhai heddluoedd systemau rhybuddio neu hysbysu cymunedau (neu mae system o'r fath wrthi'n cael ei gosod) a dyna gyfrwng arall ar gyfer rhannu negeseuon pwysig am fentrau troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn ogystal ag ar gyfer casglu gwybodaeth.

> "Mae swydd y Cydgysylltydd wedi'i gwneud yn bosib i arweinwyr yr heddlu gysylltu â grwpiau arbenigol i wella sgiliau a magu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfyngiadau a disgwyliadau'n rolau gwahanol.[5]"

Yn ôl yr ymatebion a gafwyd gan yr heddlu yng Nghymru, roedd pob tîm wedi manteisio ar y cyrsiau gwahanol a ddarparwyd yn ystod 18 mis cyntaf y rhaglen, a chafwyd sawl syniad ar gyfer cyrsiau newydd megis dwyn cerbydau, tanio drylliau a phrofiadau eraill ar ffermydd. Roedd ymatebion gan sefydliadau eraill yn cynnig darparu hyfforddiant ychwanegol mewn ystod eang o bynciau. Dyna enghraifft arall o fantais sylweddol gweithio mewn partneriaeth ac ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid.

5 Ymgynghoriad â rhanddeiliaid Rhag 2022 – Ion 2023



Rydym wedi ymuno â'r sesiynau ar-lein a'u cael yn ddefnyddiol iawn. Cafodd y cwrs ymwybyddiaeth am ffermio dderbyniad gwresog gan yr holl heddweision. Byddai derbyniad da hefyd i fwy o gyrsiau ymarferol fel y rhain.[4]

# Nod Strategol

Datblygu ymateb cydlynol effeithiol ar lefel Cymru gyfan i droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad; ymateb sydd wedi'i deilwra i anghenion Cymru; cefnogi'r heddlu a'u partneriaid i atal troseddu, mynd ar drywydd troseddwyr, ac amddiffyn y rhai yr effeithir arnynt fwyaf ganddo. Y ffocws fydd y cymunedau, unigolion, cynefinoedd a bywyd gwyllt sydd fwyaf mewn perygl o niwed.

# Amcanion Strategol:

## Partneriaethau

Gweithio mewn partneriaeth i leihau troseddau a diogelu cymunedau gwledig a bywyd gwyllt. Datblygu rhwydweithiau effeithiol i rannu syniadau, arferion gorau ac adnoddau.

## Dioddefwyr

Gwella'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi dioddefwyr yr effeithir arnynt gan droseddau mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

## Sgiliau a Chapasiti

Darparu hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn ystod eang o agweddau ar droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, gan wneud y defnydd gorau o asiantaethau partner.

## Cuddwybodaeth

Gwella'r modd y cesglir data ac y rhennir gwybodaeth rhwng partneriaid ac asiantaethau gorfodi.

## Technoleg

Defnyddio technoleg ac arloesedd i ddiogelu cymunedau gwledig a bywyd gwyllt.

## Cyfiawnder Troseddol

Gweithio gyda'r holl bartneriaid i nodi sut y gellir gwella deddfwriaeth a threfniadau dedfrydu a chofnodi troseddau. Helpu'r Gwasanaeth Prawf i ddefnyddio 'talu nôl i'r gymuned' o fewn y Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd arfordirol.

## Ymgysylltu

Datblygu cynlluniau cyfathrebu, gan ddefnyddio pob math o gyfryngau a sicrhau presenoldeb gweladwy i godi ymwybyddiaeth am ymchwiliadau, canlyniadau, a gwaith atal. Archwilio cyfleoedd yn y byd academaidd ac ymchwil i helpu i ymgysylltu ac i ddeall y troseddau hyn a'u heffaith.

# Sut byddwn ni’n rhoi’r strategaeth ar waith?

Mae’r Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad eisoes wedi sefydlu’r Grwpiau Blaenoriaeth, bob un â’i gylch gorchwyl. Bydd y Grwpiau hyn nawr yn dilyn strategaeth yr NPCC â chynllun 4P, ynghyd ag amcanion penodol mesuradwy a chyraeddadwy sy’n deillio’n uniongyrchol o’r strategaeth gyffredinol. Bydd y cynllun 4P, ar y cyd â’r Theori Newid a’r fframwaith metrigau fydd yn cael eu datblygu yn Ch1 a Ch2 2023, yn galluogi’r Grwpiau i ddatblygu eu hamcanion ar gyfer tracio perfformiad a chanlyniadau. Y 4P yw yw Prepare (Paratoi), Prevent (Atal), Pursue (Mynd ar Drywydd) a Protect (Diogelu)

## Paratoi

Paratoi ar gyfer pryd y gallai troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad gael eu cyflawni, gan eu hatal lle medrir a lleihau eu heffaith drwy ddefnyddio cudd-wybodaeth, data a thechnoleg yn effeithlon.

## Atal

Atal ac annog pobl rhag cyflawni troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad drwy bartneriaethau effeithiol, y cyfryngau a chyfathrebu, ac ymgysylltu â’r cyhoedd.

## Mynd ar Drywydd

Mynd yn ddiflino ar drywydd troseddwyr gan ganolbwyntio’n benodol ar droseddwyr difrifol a threfnedig, gan ddefnyddio ein partneriaid cyfiawnder troseddol i’w herlyn; a tharfu ar droseddwyr ac atal troseddu drwy dactegau gorfodi effeithiol.

## Diogelu

Diogelu cymunedau gwledig a bywyd gwyllt rhag effaith troseddwyr drwy ymdrech genedlaethol wedi’i chydlynu, gan ddefnyddio’n holl adnoddau a chynyddu gallu a chapasiti’r heddlu a’u partneriaid.




Blaenoriaethau 2023–2025
Troseddau'n ymwneud ag Adar
Aflonyddu ar Adar y Môr
Troseddau ar Ffermydd
Mamaliaid a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop
Cynefinoedd
– Troseddau'n ymwneud â Threftadaeth
– Gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffyrdd
Iechyd Meddwl / Cam-drin yn y Cartref
Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru

# Golwg Gyffredinol ar y Grwpiau Blaenoriaeth

## Troseddau'n ymwneud ag Adar

Mae troseddau sy'n ymwneud ag adar yn effeithio ar rywogaethau mwy trefol ac adar sy'n byw ar ein glannau yn ogystal ag ar adar ysglyfaethus. Gall troseddau gynnwys gwenwyno; dinistrio nythod; trapio; difrodi cynefinoedd; dwyn wyau; masnachu; a'u saethu'n anghyfreithlon.

Mae'r grŵp yn gweithio i adnabod y troseddau hyn a'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle ceir y bygythiad mwyaf i adar. Drwy dargedu ymgyrchoedd partneriaid a heddluoedd, hyfforddi swyddogion, rhannu cudd-wybodaeth, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y broblem, mae'r grŵp yn ceisio targedu ardaloedd lle ceir problem arbennig a thrwy gyd-gynllunio, chwilio am ffyrdd o newid pethau. Mae gan y grŵp Troseddau Adar hefyd aelodau sy'n aelodau o Grŵp Adar Ysglyfaethus y DU.

Mae **Operation Seabird Cymru** yn is-grŵp o'r grŵp Troseddau Adar ac yn delio â throseddau ar ein harfordir, gan gynnwys aflonyddu ar famaliaid.

**Amcanion:**

– Lleihau'r holl droseddau yn erbyn adar yng Nghymru.

– Codi ymwybyddiaeth am droseddau yn erbyn adar.

– Gwella gwybodaeth a hyfforddiant yn yr heddlu a'r asiantaethau partner.

## Troseddau ar Ffermydd

Mae'r rhan fwyaf o droseddau gwledig sy'n cael eu riportio i'r heddlu yng Nghymru yn gysylltiedig â ffermydd a'n cymunedau gwledig. Mae'r troseddau'n cynnwys dwyn peiriannau, offer a cherbydau; ymosodiadau ar dda byw gan gŵn; llosgi bwriadol; bwrgleriaeth; a dwyn da byw, tanwydd neu gŵn gwaith. Mae troseddau'n ymwneud â cheffylau hefyd wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn.

Mae'r grŵp yn ceisio codi ymwybyddiaeth a threfnu gweithgarwch rhwng yr heddlu a'u prif bartneriaid gan gynnwys undebau'r ffermwyr. Mae troseddau ar ffermydd yn cael effaith arwyddocaol ar ein cymunedau cefn gwlad gan fod bywoliaethau a chynhyrchiant yn dioddef oherwydd y costau sydd ynghlwm a phwysigrwydd peiriannau a cherbydau i'r gymuned ffermio. Mae codi ymwybyddiaeth am y troseddau hyn yn allweddol i'n cymunedau ffermio, fel y mae atal troseddu a cheisio ffyrdd o roi pwerau gwell i'r heddlu i allu delio â'r troseddau, megis newid y gyfraith i atal troseddau yn erbyn da byw a helpu ymchwiliadau. Mae'n bwysig iawn bod heddweision yn cael eu dysgu i ddeall busnes ffermydd ac effeithiau troseddau ar ffermydd. Mae dros 60 o heddweision yng Nghymru wedi cael yr wybodaeth hanfodol honno trwy ddilyn cwrs penodol ar droseddau ar ffermydd.

**Amcanion:**

– Lleihau'r troseddau sy'n digwydd ar ffermydd.

– Rhoi hyfforddiant a gwybodaeth i heddweision a phartneriaid am arferion ffermio a'r pwysau sydd arnynt.

– Cydweithio â chymunedau ffermio a thrwy asiantaethau partner a marchnadoedd da byw.



## Cynefinoedd

Mae cynefinoedd Cymru'n cynnal ein hecosystemau a'n bywyd gwyllt, ac felly mae atal troseddau yn ein hardaloedd gwledig yn hanfodol er mwyn eu diogelu. Mae troseddau'n cynnwys tipio anghyfreithlon; gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffyrdd; planhigion a rhywogaethau ymledol; troseddau'n ymwneud â threftadaeth; a difrodi SoDdGAau (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). Mae'r grŵp yn ceisio nodi problemau ledled Cymru trwy weithio'n agos gyda'n hasiantaethau partner a'n harbenigwyr er mwyn gallu taclo troseddau. Mae addysg, atal a gorfodi yn rhannau hanfodol o unrhyw gynllun gweithredu.

**Mae dau is-grŵp a chynhelir sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn rheolaidd:**

**Operation Heritage Cymru –** Prosiect gyda CADW ac asiantaethau partner eraill i atal difrod neu ddirywiad i'n safleoedd treftadaeth. Mae'r prosiect hwn hefyd yn hyfforddi heddweision gwledig ac yn gweithio gyda chadetiaid yr heddlu.

**Operation Taurus Cymru –** Dyma ymgyrch ar y cyd i fynd i'r afael â gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd yng Nghymru ac mae'n allweddol i atal troseddau rhag lledaenu o un ardal i'r llall. Mae codi ymwybyddiaeth am y difrod sy'n cael ei achosi ynghyd â thargedu mesurau gorfodi yn dactegau allweddol i'r grŵp ar gyfer atal troseddau o'r fath.

**Amcanion:**

- Cydlynu â phartneriaid allweddol i sicrhau arferion gweithio mwy effeithiol a chlos.
- Ceisio magu dealltwriaeth o effeithiau rhai troseddau ar ein cynefinoedd a'n treftadaeth.
- Cydweithredu uniongyrchol rhwng yr heddlu a'u partneriaid i atal a datrys troseddau trwy weithrediadau ac addysg.

## Mamaliaid a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop[6]

Mae gan Gymru amrywiaeth o fywyd gwyllt, a cheir troseddau all bygwth eu lles a'u cynaliadwyedd, gan gynnwys troseddau yn erbyn ystlumod; potsio ceirw; hela anghyfreithlon; troseddau yn erbyn moch daear; a gweithgareddau troseddol sy'n effeithio ar fflora a ffawna a warchodir o dan CITES neu gan Ewrop.

Mae'r grŵp yn dod â'r heddlu a phartneriaid allweddol ynghyd i nodi ardaloedd lle ceir problemau ac i ystyried ffyrdd o atal y troseddau hyn. Mae hanfodol codi ymwybyddiaeth am y problemau, ond hefyd mae gan orfodaeth rôl hanfodol o ran rhai troseddau. Mae gan y grŵp hwn gyfoeth o wybodaeth a phrofiad i ddelio â phroblemau a cheir cysylltiadau â grwpiau blaenoriaeth eraill yn y DU i ddod â gwybodaeth ac arferion gorau ynghyd. Gall gwaith heb ganiatâd cynllunio gael effaith ddinistriol ar rai rhywogaethau, felly mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda'n hawdurdodau lleol i atal gwaith o'r fath.

**Amcanion:**

- Sicrhau ymateb proffesiynol a chyflym i bob trosedd gaiff ei riportio sy'n ymwneud â mamaliaid a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop.
- Gwella'r wybodaeth a'r arferion gorau ar gyfer delio â throseddau posibl o'r fath.
- Defnyddio gwybodaeth arbenigol asiantaethau eraill i helpu i ymchwilio i droseddau a'u herlyn.




6 European Protected Species



## Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru

Mae pedair ardal blismona yng Nghymru: Dyfed Powys, Gwent, y Gogledd a'r De. Mae gan bob ardal ei thîm troseddau gwledig sy'n delio ag anghenion yr ardal dan sylw. Er bod gan bob ardal ei phroblemau gwledig penodol ei hun mae llawer iawn o orgyffwrdd. Mae'r gweithgor bach ond eang ei effeithiau hwn yn cydlynu'r pedwar tîm heddlu gwledig yng Nghymru i sicrhau'r canlynol: yr arferion gorau; rhannu gwybodaeth; trefnu adnoddau, mentrau a gweithredoedd ar y cyd ac ymgyrchoedd ar y cyd ar y cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis i drafod tueddiadau a chynlluniau ar gyfer materion tymhorol ledled cefn gwlad Cymru.

**Amcanion:**

– Sicrhau bod adnoddau'n cael eu neilltuo ym mhob ardal blismona i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl.

– Datblygu systemau er mwyn trosglwyddo gwybodaeth yn well o fewn timau'r heddlu.

– Nodi anghenion hyfforddi a darparu'r adnoddau priodol i ateb y galw, gan gynnwys rhannu gwybodaeth ac arferion gorau.

## Iechyd Meddwl a Cham-drin yn y Cartref

Er bod y ddau bwnc yn rhai anferth a bod gwaith hynod bwysig yn cael ei wneud gan asiantaethau a phartneriaid sy'n delio'n unswydd â'r meysydd hyn yng Nghymru, mae'r Grŵp Blaenoriaeth hwn yn dod â sefydliadau allweddol a heddweision gwledig ynghyd a nhw yn aml yw'r cyntaf i gwrdd â'r dioddefwr neu'r claf yn y lleoliad gwledig. Y grŵp sy'n gwneud y gwaith cydlynu a'r cydgysylltu sy'n angenrheidiol i allu darparu hyfforddiant, gwybodaeth, a chefnogaeth benodol. Nid yw'r problemau hyn yn unigryw i'r trefi ond yn aml, mae'r problemau sy'n codi a'r atebion sydd eu hangen pan fyddant yn digwydd mewn cymunedau gwledig yn wahanol iawn. Gall yr heddlu a'n hasiantaethau cefnogi roi'r gwasanaeth rheng flaen hwnnw, gan gydweithio'n agos i ddarparu gwasanaethau hanfodol ac amddiffyniad gwell, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o fewn ein cymunedau ffermio.

**Amcanion:**

– Rhoi'r hyfforddiant sydd ei angen ar heddweision a phartneriaid wrth ddelio ag argyfwng mewn ardal wledig.

– Cynyddu gwybodaeth yr heddlu a'u partneriaid am yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael.

– Deall yr amgylchedd gwledig a'r pwysau o fewn y diwydiant ffermio a pha gymorth sydd ar gael.

# Strwythur Llywodraethu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru

Arweinydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad NSPCC Cymru

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd

Yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol a'r Uned Troseddau Gwledig Genedlaethol

Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru

Tîm Diogelu Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru

Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru

Aflonyddu ar Adar y Môr

Troseddau'n ymwneud ag Adar

- Troseddau'n ymwneud â Threftadaeth
- Gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffyrdd

Troseddau ar Ffermydd

Cynefinoedd

Partneriaid a Rhanddeiliaid

Mamaliaid a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

Iechyd Meddwl / Cam-drin yn y Cartref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae’n anrhydedd cael cydweithio fel partner gwâdd â heddweision Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yng Nghymru. Drwy hynny, rydym wedi gallu gweithio mewn ffordd lawer iawn yn fwy cydweithredol ac effeithiol. I ni, mae Cymru’n arwain y DU yn hyn o beth.[4]

# Cyfeiriadau


Morris, W., Norris, G. & Dowell, D. (2020) The business of farm crime: evaluating trust in the police and reporting of offences. Crime Prevention and Community Safety 22, pp17–32

National Police Chiefs' Council, National Wildlife Crime Unit, and National Rural Crime Unit's (2022) Rural and Wildlife Crime Strategy for 2022-2025.
Ar gael yn: www.nwcu.police.uk/wp-content/uploads/2022/09/NPCC-Wildlife-Rural-Crime-Strategy-2022-2025.pdf

NFU Mutual (2022) Ready for the Returning Threat: Rural Crime Report 2022.
Ar gael yn: www.nfumutual.co.uk/globalassets/farming/rural-crime/nfu-mutual-rural-crime-report-202222.pdf

Norris, G. & Morris, W. (2022) Rural and Farm Crime in Wales.
Ar gael yn: www.pure.aber.ac.uk/portal/en/publications/rural-and-farm-crime-in-wales(16620c8d-6101-4b00-92d7-4b76785618c3).html

United Nations Office on Drugs and Crime (2021) Wildlife and Forest Crime Analytic Toolkit Report: United Kingdom of Great Britain and Ireland.
Ar gael yn: www.unodc.org/documents/Wildlife/UK_Toolkit_Report.pdf


## Gwefannau

Grŵp Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru | LLYW.CYMRU

www.nationalruralcrimenetwork.net

www.nwcu.police.uk

